# Cyflwyno dwy Fedal Gee yn Nyffryn Teifi



O'r chwith i'r dde: Aled Davies, Janet Evans, Dewi Davies a Densil Morgan

Gan na fu'n bosibl trefnu'r cyfarfodydd arferol yn y de a'r gogledd i gyflwyno medalau Gee eleni, penderfynwyd eu cyflwyno mewn digwyddiadau llai, a hynny'n lleol.

Dau a enwebwyd ar gyfer derbyn medalau eleni oedd Dewi Davies o eglwys Aberduar, Llanybydder, a Janet Evans o'r Noddfa, Llanbedr Pont Steffan. Felly, trefnwyd noson yn festri Aberduar er mwyn cyflwyno'r medalau iddyn nhw, a braf oedd gweld cynulleidfa luosog wedi dod ynghyd – a hynny o 5 i 95 oed.

Yn dilyn gair o groeso a defosiwn gan y gweinidog, y Parch D Densil Morgan, cafwyd gair o werthfawrogiad am wasanaeth Dewi a Janet gan y Parch Eirian Wyn Lewis, un o blant Aberduar, cyn cyflwyno'r awenau i Aled Davies o Gyngor yr Ysgolion Sul i gyflwyno'r medalau. Tystiodd Aled i'w ddyled fawr i eglwys Aberduar – yntau hefyd wedi ei fagu yn yr eglwys, a'i Yncl Dewi wedi bod yn un o'i athrawon. Wedi cyflwyno'r medalau, cafwyd gair o ddiolch gan Dewi a Janet, a ddiolchodd am bawb y buont yn cydweithio â nhw yn yr ysgol Sul dros gyfnod o 50 mlynedd.

Yna cafwyd cyflwyniad hyfryd gan blant yr ysgol Sul, oedd wedi creu sgets fer yn sôn am hanes Dewi a Janet a'u medalau, cyn i Hanelia Court ddod ymlaen i ddarllen penillion o gyfarchion iddynt.

Roedd y chwiorydd wedi bod yn brysur hefyd, a cafwyd gwledd wrth y byrddau yn dilyn y cyfarfod.

Wrth gyflwyno'r cais dros Janet Evans, meddai'r Parch Densil Morgan, ei gweinidog:

Bu Janet yn ddiwyd ers deugain mlynedd a mwy yn arwain yr ysgol Sul yn Noddfa, Llambed. Symudodd yma yng nghanol y 1970au pan benodwyd Derek, ei gŵr, yn rheolwr Banc y Midland, ac wrth i'w plant fynychu'r ysgol Sul ymroes i'w gweithgareddau. Yn ogystal â thrwytho cenedlaethau o blant mewn hanesion o'r Beibl, mae'n trefnu oedfaon arbennig adeg y Nadolig, y Pasg, Gŵyl Ddewi a Sul y Mamau, a thrwy ei llafur hi cafodd ysgol Sul Noddfa lwyddiant arbennig yng ngŵyl mawl yr enwad, sef Gŵyl y Gair a'r Gân. Mae'n cydweithio'n hapus â mamau'r eglwys, ac mae'r plant yn meddwl y byd ohoni. Mae'r oedfaon y mae Janet yn eu trefnu'n rhan bwysig o genhadaeth a thystiolaeth eglwys Noddfa i'r dref ac yn y gymdogaeth. Ar sail ei ffyddlondeb eithriadol i'r ysgol Sul ar hyd ei hoes, ac yn arbennig ei llafur diflino yn Ysgol Sul Noddfa, teimlwn ei bod hi'n fwy na theilwng i dderbyn anrhydedd y Fedal Gee.

Yr un un modd, cyflwynodd Dewi Davies gan ddweud:

Un o blant Aberduar yw Dewi: fe'i magwyd yn yr eglwys, mynychodd yr ysgol Sul o'i febyd ac fe'i bedyddiwyd yma. Mesur ymddiriedaeth yr eglwys ynddo oedd ei godi'n ddiacon yn 25 oed. Yn ogystâl â'i sêl dros weithgareddau eraill yr achos, gyda'r ysgol Sul y bu ei ymlyniad pennaf ar hyd ei oes. Bu'n athro ar amrywiaeth o ddosbarthiadau ac ef, hyd heddiw, sy'n trefnu Oedfa Nadolig y Bobl Ifainc ac Oedfa'r Pasg. Cafodd ddylanwad arhosol ar genedlaethau o ieuenctid, yn cynnwys y Parchedigion Eirian Wyn Lewis, Mynachlog-ddu; Owain Llŷr Evans, Minny Street, Caerdydd; ac Aled Davies, Chwilog.

Ar sail ei gyfraniad diwyd, dyfeisgar ac anhunanol i achos yr ieuenctid ar hyd ei oes, dymuniad ei gyd-aelodau a'i lu gyfeillion ym mhentref Llanybydder a'r cylch yw ei gynnig fel un cwbl deilwng i dderbyn anrhydedd y Fedal Gee.

Diolch am wasanaeth diflino'r ddau dros gyfnod maith iawn.

Yn rhifyn yr wythnos nesaf o *Cenn@d,* cawn adroddiad am gyfarfod arall a gynhaliwyd yn y Capel Newydd, Llanddarog.



Janet Evans a Dewi Davies yng nghwmni'r plant a gymerodd ran yn y gwasanaeth cyflwyno

**I gyfarch Janet a Dewi ar ennill Medal Gee**

Mae'n noson dra arbennig
I'n henwad annwyl ni,
Sef Dewi a hi, Janet,
Yn ennill medal Gee.
Fel cyd-aelodau iddynt
Sydd yma ger eu bron,
Mae'n bleser eu llongyfarch
Ar y noson sbesial hon.

Bu'r ysgol Sul yn ffodus
Ar hyd blynyddoedd maith
O gael arweiniad Dewi
I gario mlaen â'r gwaith.
Roedd pasiant y Nadolig
A'r gwasanaethau i gyd
Yn werth eu gweld bob amser,
A hynny'n wir o hyd.

Mi oedd bob amser wrthi
A'i gamra ym mhob man,
Ac yn recordio'r cyfan
Wrth iddynt wneud eu rhan.
Mi ddaeth yn ddiacon ifanc
Yn bump ar hugain oed,
A nawr mae mor frwdfrydig
Â fuodd ef erioed.

A Janet hithau hefyd
Sy'n cael y plant ynghyd
Bob wythnos ers blynyddoedd
A'u dysgu hwy i gyd.
Mae Noddfa yn dra lwcus
O'i gwaith arbennig hi
A'r ysgol Sul bob amser
Yn llawn o hwyl a sbri.

Mae'n paratoi'r Diolchgarwch
A'r Nadolig yn ei dro,
A dathlu'r Pasg bob blwyddyn
'Da'r ieuenctid yn y fro.
Mae wedi bod yn ffyddlon
I'r Urdd ar hyd ei hoes
A'r plant i gyd yn gwrando,
Heb feddwl tynnu'n groes.

Nid pawb sy'n dathlu'r dwbwl,
Ond dyna a wnawn ni,
A llongyfarchiadau gwresog
I'r ddau ohonoch chi.
Gobeithio y cewch iechyd
I gario mlaen â'r gwaith
I ddysgu plant yr ardal
Yn wir am gyfnod maith.